Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu

## Bethshan Sheltered Sheltered Housing

Heol Treowen,  Y Drenewydd, SY16 1JA

01686610070

www.bethshan.uk

**Dyddiad yr ymweliad arolygu / Dyddiadau'r ymweliadau arolygu: 28/01/2026 a 28/01/2026**

## Gwybodaeth am y Gwasanaeth:

| | |
|---|---|
| Gweithredir gan: | Bethshan Sheltered Sheltered Housing |
| Math o Ofal: | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal â Nyrsio i Oedolion |
| Darpariaeth ar gyfer: | Cartref gofal i oedolion - â nyrsio, Cartref gofal i oedolion - â gofal personol |
| Lleoedd cofrestredig: | 40 |
| Prif iaith/ieithoedd: | Saesneg |
| Hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru: | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Graddau:

| | |
|---|---|
| Llesiant | DA |
| Gofal a Chymorth | DA |
| Yr Amgylchedd | DA |
| Arweinyddiaeth a Rheolaeth | DA |

## Crynodeb:

Mae Bethshan yn gartref nyrsio dymunol, mawr sy'n cynnwys 40 o welyau ar gyfer oedolion. Mae wedi'i leoli yn y Drenewydd, Powys.

Mae'r bobl yn cyflawni canlyniadau llesiant da gan fod ganddynt ddewis a rheolaeth dros eu diwrnod. Maent yn penderfynu sut i dreulio eu hamser ac yn elwa ar gydberthnasau cadarnhaol a pharchus â'r staff gofal sy'n eu hadnabod yn dda. Mae'r gweithgareddau yn amrywiol ac yn ystyrlon, sy'n hyrwyddo cysylltiad cymdeithasol a llesiant emosiynol. Mae'r bobl yn mwynhau prydau bwyd maethlon ac ystafelloedd gwely wedi'u personoli sy'n cefnogi hunaniaeth a chysur.

Mae'r staff gofal yn cynnig gofal dibynadwy a thosturiol. Mae asesiadau yn sicrhau y gellir diwallu anghenion y bobl, ac mae'r staff yn deall dewisiadau ac arferion y bobl. Mae'r darparwr yn cryfhau'r cynlluniau personol a'r asesiadau risg er mwyn bod y cynlluniau yn adlewyrchu canlyniadau ac

anghenion y bobl.
Mae'r bobl yn byw mewn llety cynnes a glân sy'n cefnogi eu llesiant. Mae cyfarpar ar gael ac mewn cyflwr da, ac mae'r ardaloedd cymunedol ac ystafelloedd gwely yn gartrefol. Mae systemau ar gyfer diogelwch tân ar waith, ond mae angen gwaith a hyfforddiant pellach i sicrhau cydymffurfiaeth lawn.

Mae'r arweinyddiaeth a rheolaeth yn effeithiol, yn gefnogol ac yn canolbwyntio ar wella. Mae'r staff gofal yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac mae'r cyfathrebu yn gadarnhaol. Mae'r trefniadau sicrhau ansawdd yn darparu goruchwyliaeth dda.

## Canfyddiadau:

## Llesiant — DA

Mae'r bobl yn cyflawni canlyniadau da gan fod ganddynt ddewis a rheolaeth dros eu diwrnod. Maent yn penderfynu pryd i godi, beth i'w wisgo a sut i dreulio eu hamser. Mae'r staff yn dangos ymrwymiad, yn adnabod y bobl yn dda ac yn eu trin ag urddas a pharch. Dywedodd aelodau teulu wrthym fod y rheolwr a'r staff yn "*Excellent – they are very kind*" a "*We are made to feel welcome at any time*." Mae hyn yn adlewyrchu cydberthnasau cryf o fewn y cartref.
Mae'r bobl yn mwynhau prydau bwyd cartref, maethlon a gwnaethant ddweud wrthym fod dewisiadau ar gael iddynt. Dywedodd un person, *"I enjoy the food."* Mae perthnasau a ffrindiau yn helpu nifer o bobl i bersonoli eu hystafelloedd â lluniau ac eiddo personol, sy'n hybu hunaniaeth a llesiant emosiynol.

Mae'r staff yn helpu'r bobl i gynnal eu llesiant corfforol, emosiynol a chymdeithasol. Mae'r bobl yn cael cyfleoedd rheolaidd i feithrin a chynnal cydberthnasau ag eraill sy'n byw yn y cartref a'r gymuned ehangach. Mae'r gweithgareddau yn amrywiol ac yn ystyrlon, ac yn helpu'r bobl i gyrraedd eu potensial. Gwelsom y bobl yn mwynhau sesiwn grefft hamddenol a hwyl mewn ystafell gymunedol fawr. Gwnaethom hefyd arsylwi ar y gwasanaeth eglwys wythnosol a oedd yn hwyliog ac yn llawen, ac roedd y bobl, eu perthnasau a ffrindiau yn mynychu. Dywedodd y bobl ac aelodau o'u teulu wrthym mai hwn yw uchafbwynt yr wythnos i rai o'r bobl sy'n byw yn y gwasanaeth yn aml. Mae gweithgareddau eraill yn cynnwys ymweliadau gan blant ysgol lleol, sesiynau canu ac ymweliadau gan anifeiliaid. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn mwynhau'r gweithgareddau hyn. Dywedodd un person, *"We are always doing things – I love arts and crafts and making things for the Chinese New Year at the moment."*

Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at y Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg ac yn dathlu gwyliau, digwyddiadau chwaraeon a hanes Cymru. Gwelsom ryngweithio cadarnhaol a chynnes rhwng y staff a'r bobl, gan gynnwys dulliau gwrando a rhoi sicrwydd ystyriol. Roedd y staff yn weladwy ac ar gael pan oedd angen cymorth ar y bobl. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn teimlo'n hapus ac yn ddiogel yn eu cartref. Dywedodd un person, "*It's a lovely place to live."* Mae'r staff gofal y gwnaethom siarad â nhw yn deall eu cyfrifoldebau diogelu ac yn teimlo'n hyderus i roi gwybod i'r rheolwr am bryderon.

Mae'r staff yn cefnogi'r bobl i gynnal cydberthnasau ystyrlon â theulu, ffrindiau a'r bobl sy'n bwysig iddynt, sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at lesiant emosiynol. Dywedodd perthnasau wrthym eu bod yn cael croeso ar unrhyw adeg ac maent yn rhan o fywydau'r bobl, gan ddweud "*We never have a problem*; *I visit a couple of times a week."*

## Gofal a Chymorth DA

Mae'r bobl yn cael gofal da, dibynadwy a thosturiol gan staff gofal sy'n eu hadnabod yn dda ac yn eu trin ag urddas a pharch. Gwelsom ryngweithio cynnes, caredig, calonogol ac ystyrlon ym mhob rhan o'r gwasanaeth. Dywedodd y bobl wrthym fod y staff yn gwrando arnynt ac yn eu cefnogi. Gwelsom y staff gofal yn ymatebol ac yn gefnogol yn ystod amseroedd bwyd a gweithgareddau, a oedd yn creu profiadau cadarnhaol. Dywedodd gweithiwr proffesiynol wrthym ei fod wedi gweld staff gofal sy'n "*friendly, engaging, and approachable*" ac yn "*familiar with the needs and backgrounds of the people they care for*." Dywedodd perthnasau fod cyfathrebu â'r rheolwr a'r staff gofal yn brofiad cadarnhaol a'u bod yn cael gwybod am unrhyw newidiadau ac yn teimlo'n hyderus yn y gofal a ddarperir yn y cartref.

Mae gan y gwasanaeth drefniadau asesu ar waith i sicrhau y caiff anghenion y bobl eu hasesu cyn iddynt symud i'r cartref. Mae hyn yn sicrhau bod y bobl yn cael y gofal a'r cymorth cywir i ddiwallu eu hanghenion mewn modd diogel a phriodol. Mae'r staff gofal yn dangos dealltwriaeth dda o arferion, dewisiadau ac anghenion cyfathrebu'r bobl. Dywedodd gweithiwr proffesiynol wrthym fod y bobl yn cael gofal sy'n "*consistent, professional, and delivered with confidence*". Mae'r bobl yn cyfrannu at adolygiadau o'r cynlluniau personol, ac mae perthnasau neu gynrychiolwyr yn cymryd rhan lle bo hynny'n briodol. Mae angen gwella'r canlyniadau i'r bobl am nad yw'r cynlluniau personol bob amser yn adlewyrchu anghenion presennol, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr wneud gwelliannau. Mae'r darparwr yn parhau i atgyfnerthu'r cynlluniau personol a'r nodiadau dyddiol er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu unrhyw newidiadau, anghenion penodol y bobl a'u canlyniadau personol yn gyson. Mae asesiadau risg yn rhoi arweiniad i'r staff ar sut i gefnogi'r bobl yn ddiogel, ac mae'r gwasanaeth yn parhau i fireinio'r dogfennau hyn er mwyn bod risgiau a chamau gweithredu yn cael eu cofnodi'n gyson. Byddwn yn ystyried hyn yn yr arolygiad nesaf.

Mae nyrsys sydd wedi'u hyfforddi yn storio ac yn rhoi meddyginiaeth yn ddiogel ac yn effeithiol. Mae'r staff yn cael hyfforddiant priodol ac yn dangos hyder a phroffesiynoldeb wrth roi meddyginiaethau. Mae archwiliadau ar waith i sicrhau bod unrhyw broblemau'n cael eu nodi a chamau'n cael eu cymryd.

Mae systemau ar waith i amddiffyn y bobl rhag niwed. Mae'r staff yn defnyddio eu hyfforddiant a'u sgiliau i gefnogi'r bobl yn y ffyrdd lleiaf cyfyngol a hyrwyddo canlyniadau cadarnhaol. Mae'r staff yn gwneud ceisiadau Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid pan nad oes gan y bobl alluedd meddyliol i wneud penderfyniadau penodol. Mae hyn yn sicrhau bod y gwasanaeth yn parchu hawliau a rhyddid y bobl. Mae'r staff gofal yn deall eu cyfrifoldebau diogelu ac roeddent yn teimlo'n hyderus yn rhoi gwybod i'r rheolwyr am unrhyw bryderon, a chawsom sicrwydd y byddent yn ymateb yn brydlon. Mae canllaw gwybodaeth y gwasanaeth yn rhoi trosolwg clir o'r hyn sydd i'w ddisgwyl yn y gwasanaeth, gan gynnwys cymorth sydd ar gael, y drefn o ddydd i ddydd a sut mae'r gwasanaeth yn gweithredu.

## Yr Amgylchedd DA

Mae'r bobl yn byw mewn llety sy'n diwallu eu hanghenion ac o fudd iddynt yn emosiynol ac yn gorfforol. Maent yn profi amgylchedd diogel, cynnes, cyfforddus a chartrefol sy'n hyrwyddo eu llesiant. Dywedodd gweithiwr proffesiynol wrthym, *“From observation during visits, the environment and daily structure appear to enhance the wellbeing, stability, and overall quality of life of the individuals living there,”* ac mae hynny'n adlewyrchu'r diwylliant cadarnhaol yn y gwasanaeth.

Mae'r bobl yn personoli eu hystafelloedd gwely ag eitemau personol, ffotograffau a llenni a deunyddiau, sy'n cefnogi hunaniaeth ac amgylchedd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r ardaloedd cymunedol yn teimlo'n groesawgar ac wedi'u haddurno'n dda, ac mae'r Unigolyn Cyfrifol a'r rheolwr yn sicrhau bod y cartref yn parhau mewn cyflwr da.

Mae amrywiaeth o ardaloedd cymunedol a phreifat ar gael i'r bobl lle gallant dreulio amser ar eu pen eu hunain, neu gymdeithasu a chwrdd ag ymwelwyr. Mae'r staff yn parchu dewisiadau'r bobl am sut a ble i dreulio eu diwrnod. Mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd glân, taclus a diogel. Nid oedd unrhyw beryglon yn y coridorau, ac roedd pob un o'r ystafelloedd gwely a welsom yn daclus ac mewn cyflwr da. Mae digon o le i'r bobl symud yn rhydd, sy'n cefnogi annibyniaeth ac yn sicrhau y gallant gymryd rhan mewn gweithgareddau ac amser hamdden. Mae'r ardaloedd cymunedol wedi'u haddurno'n ddymunol, ac mae arddangosfeydd yn y coridorau yn cynnwys ffotograffau o ddigwyddiadau yr oedd y bobl wedi cymryd rhan ynddynt, dathliadau, hanes lleol a byrddau synhwyraidd. Mae'r cartref hefyd yn darparu ystafell wely i berthynas ei defnyddio pan fo angen. Mae cyfarpar ac addasiadau yn cefnogi'r bobl sydd eu hangen.

Mae'r cartref yn darparu ystafelloedd ymolchi a chyfleusterau toiled hygyrch sy'n hybu preifatrwydd ac urddas. Mae'r ystafelloedd gwlyb yn gwella annibyniaeth y bobl a all reoli agweddau ar ofal personol. Mae digonedd o gyfarpar mewn cyflwr da, gan gynnwys lifft sy'n cefnogi'r bobl i symud o amgylch y cartref yn ddiogel. Mae cofnodion yn dangos y caiff cyfarpar ei wasanaethu'n rheolaidd. Mae'r gegin yn fawr, yn lân ac yn drefnus, ac roedd gwiriadau priodol wedi'u cynnal. Mae'r gwasanaeth wedi cael sgôr hylendid bwyd o 5 (Da Iawn), sy'n dangos bod arferion rheoli heintiau a diogelwch bwyd cryf ar waith. Mae'r cyfleusterau golchi dillad mawr yn hyrwyddo hylendid da ac yn cyfyngu ar groeshalogi. Dywedodd y staff domestig wrthym fod ganddynt y cyfarpar sydd ei angen arnynt a bod Cyfarpar Diogelu Personol ar gael ym mhob rhan o'r cartref.

Gellir mynd i ardd fach, ddiogel yn hawdd, sy'n cynnig ardal awyr agored lle gall y bobl dreulio amser yn ddiogel. Mae hefyd feranda â gorchudd yn yr awyr agored, lle gall y bobl fwynhau'r olygfa o'r dref leol. Mae hyn yn darparu man ychwanegol sy'n cefnogi llesiant y bobl.

Mae systemau ar waith i sicrhau bod yr amgylchedd mewn cyflwr da ac yn ddiogel. Cynhelir

gwiriadau o'r cyfarpar diogelwch tân, ond mae angen gwella'r canlyniadau i'r bobl gan fod angen hyfforddiant a gwaith pellach i sicrhau bod y gwasanaeth yn cydymffurfio â'r gweithdrefnau diogelwch tân i gyd, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr wneud gwelliannau. Mae'r darparwr wedi rhoi sicrwydd i ni y bydd yn mynd i'r afael â hyn, a byddwn yn ystyried y mater eto yn yr arolygiad nesaf.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

**DA**

Mae trefniadau arweinyddiaeth a rheolaeth y gwasanaeth yn dangos ymrwymiad cryf i ddarparu gofal diogel a chyson sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r dull hwn yn creu amgylchedd lle mae'r bobl a'r staff gofal yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda. Dywedodd y staff gofal y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo y cânt eu gwerthfawrogi a'u cefnogi. Dywedodd un aelod o'r staff gofal wrthym eu bod yn cael "*Very good support from all the management team- at any time*". Mae diwylliant cadarnhaol ym mhob rhan o'r gwasanaeth, ac mae'r arweinwyr yn weladwy, yn hawdd mynd atynt ac yn cymryd rhan yn y gweithrediadau o ddydd i ddydd. Mae'r presenoldeb hwn yn helpu i sicrhau bod trefniadau cyfathrebu da, proses oruchwylio effeithiol a dealltwriaeth glir o'r ffordd y mae'r gwasanaeth yn gweithredu. Dywedodd gweithiwr proffesiynol wrthym, "*Their leadership supports good communication, consistent care practices, and a safe culture within the home*".

Mae gwybodaeth am y gwasanaeth ar gael i'r bobl ar ffurf datganiad o ddiben a chanllaw gwybodaeth. Nid yw'r rhain ar gael yn Gymraeg ar hyn o bryd.

Mae'r trefniadau sicrhau ansawdd yn helpu arweinwyr i gynnal dealltwriaeth o'r ffordd y mae'r gwasanaeth yn gweithredu ac yn sicrhau bod proses oruchwylio briodol ar waith. Ceir monitro rheolaidd a mewnbwn gan yr Unigolyn Cyfrifol, sy'n cymryd amser i siarad â'r bobl sy'n byw yn y gwasanaeth a'u perthnasau. Mae hyn yn cefnogi barn gytbwys am yr hyn sy'n gweithio'n dda a lle y byddai datblygiad pellach o fudd, ond nid yw hyn bob amser yn cael ei ddogfennu yn eu hymweliadau bob tri mis. Byddai'r rhain yn cael budd pellach o dystiolaeth gliriach o'r canlyniadau y mae'r bobl yn eu cyflawni. Mae'r Unigolyn Cyfrifol wedi rhoi sicrwydd ei fod yn ymrwymedig i wella hyn. Mae adolygiadau o ansawdd y gofal yn seiliedig ar adborth gan y bobl, perthnasau, y staff gofal a gweithwyr proffesiynol, sy'n cyfrannu at brosesau gwneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth ac ymarfer myfyriol.

Mae'r gwasanaeth yn elwa ar dîm o staff sefydlog a phrofiadol, ac mae nifer o'r staff gofal wedi gweithio yn y cartref am gyfnod estynedig o amser. Mae'r parhad hwn yn helpu i sicrhau bod y bobl yn cael gofal cyson gan staff gofal sy'n eu hadnabod yn dda. Caiff y staff gofal eu cefnogi drwy sesiynau goruchwylio, arfarniadau, a mynediad at hyfforddiant sy'n rhoi'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i gyflawni eu rolau. Mae'r staff gofal yn nodi eu bod yn teimlo y cânt eu gwerthfawrogi a'u cefnogi. Mae cofnodion recriwtio yn dangos bod y gwiriadau gofynnol yn effeithiol ac yn sicrhau bod y staff yn cael eu cefnogi mewn ffordd effeithiol. Mae staff newydd yn ymgymryd â phroses sefydlu gynhwysfawr sy'n cynnwys cysgodi gweithwyr profiadol. Dywedodd un aelod o staff wrthym, "*Staff support is excellent- I have done a lot of shadowing*". Mae hyfforddiant wedi gwella a chaiff ei gofnodi'n well. Dywedodd y rhai y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn cael digon o gyfleoedd hyfforddi da i gyflawni eu swydd. Roedd y lefelau staffio yn addas drwy gydol yr

arolygiad. Mae'r arweinwyr yn cynnal lefelau staffio diogel ac yn rheoli rotas yn effeithiol er mwyn sicrhau bod digon o staff ar gael bob amser.

Ar y cyfan, mae'r arweinyddiaeth a rheolaeth yn parhau yn effeithiol, yn gefnogol ac yn canolbwyntio ar wella. Mae gwaith y tîm arwain yn cyfrannu at ganlyniadau cryf i'r bobl a gweithlu hyderus sy'n cael ei gefnogi'n dda. Mae ymdrech barhaus y darparwr i atgyfnerthu'r systemau mewnol a'r ddogfennaeth yn helpu i ddatblygu'r gwasanaeth yn barhaus.

# Meysydd i'w gwella a nodwyd

Pan fyddwn yn nodi **Meysydd i'w Gwella** ac nad ydym wedi canfod bod risg uniongyrchol neu sylweddol i'r bobl, byddwn yn tynnu sylw at y rhain gyda'r darparwr. Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu a byddwn yn ystyried y mater eto yn ystod yr arolygiad nesaf.

Lle byddwn yn canfod bod yn **rhaid gwella'r** canlyniadau i'r bobl **yn sylweddol** a/neu fod risg i lesiant y bobl, rydym yn nodi meysydd **Gweithredu â Blaenoriaeth.** O dan yr amgylchiadau hyn, byddwn yn cyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth i'r Darparwr, a bydd yn rhaid iddo gymryd camau ar unwaith i wneud gwelliannau. Byddwn yn cynnal arolygiad arall ymhen chwe mis er mwyn cadarnhau bod gwelliannau wedi'u gwneud a bod y canlyniadau i'r bobl wedi gwella.

Mae'r tabl/tablau isod yn dangos y maes/meysydd gweithredu â blaenoriaeth a/neu'r maes i'w wella/meysydd i'w gwella a nodwyd gennym.

| Crynodeb o'r Meysydd i'w Gwella | Dyddiad Nodi |
|---|---|
| Rhaid gwella'r asesiadau risg a'r trefniadau diogelwch tân os bydd tân er mwyn sicrhau bod risgiau i iechyd a diogelwch y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth yn cael eu nodi a'u lleihau i'r graddau y bo hynny'n rhesymol ymarferol. | 27/01/26 |
| Nid yw'r cynlluniau personol bod amser yn cynnig canllaw adeiladol, clir i'r staff ei ddilyn. | 14/01/25 |

**Nid yw AGC wedi cyhoeddi unrhyw hysbysiadau gweithredu â blaenoriaeth yn dilyn yr arolygiad hwn.**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2026.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*